

# Y stori hyd yn hyn …

Trosolwg o gynllun Dehongli Cymru Gyfan

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

‘Mae’n debyg nad oes llawer o leoedd yn y byd lle gall cenedl ystyried dehongli ei hanes, ei diwylliant, ei thirwedd a’i hamgylchedd hanesyddol mewn modd mor gydlynol â Chymru’

Cadw

# Beth yw dull Cymru gyfan o ddehongli treftadaeth?



Rydym wrth ein bodd â stori dda yng Nghymru ac efallai na ddylai hynny fod yn syndod o ystyried ein treftadaeth a'n diwylliant cyffrous, cyfoethog ac amrywiol. Mae gan straeon Cymru, a'r dulliau a ddefnyddiwn i'w cyfleu, y potensial i ysbrydoli pobl a gwella eu bywydau. Mae cynllun Dehongli Cymru gyfan yn rhoi cyfle unigryw i ni ddehongli'r straeon hyn er budd ein pobl ein hunain a'n hymwelwyr.

Mae llawer o safleoedd treftadaeth ledled y wlad eisoes yn dathlu elfennau o'n treftadaeth a'n hanes, ond mae diffyg cydlyniad ac yn aml mae'r cysylltiadau ffisegol a thematig rhwng lleoedd a safleoedd ar goll. Mae dull Cymru gyfan yn gyfle i greu cyfanwaith, fel y gall pobl ddilyn straeon rhwng safleoedd gyda help dehongliadau ysbrydoledig.

Rydym am i gynulleidfaoedd ledled Cymru, boed yn bobl leol neu'n ymwelwyr, gael profiadau creadigol, cyffrous, diddorol, sy'n procio'r meddwl — ac sy'n hwyl hefyd. Mae manteision llwyddo yn hyn o beth yn bellgyrhaeddol — yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd. Mae gan bawb sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru ran i'w chwarae i helpu ein gwlad i sicrhau'r buddiannau hyn.




*Clawr blaen: The Guard gan John Merrill, Castell Conwy.*

*Dde: Ystrad Fflur.*


# Sut mae'n gweithio?

Mae cynllun Dehongli Cymru gyfan yn gynllun ymarferol. Mae'n rhoi fframwaith i bawb sy'n gysylltiedig â dehongli hanes Cymru — waeth beth fo maint eu prosiect neu eu cyllideb. Er mwyn ein helpu i wneud hyn, mae'r straeon wedi'u rhannu'n nifer o linynnau, a phob un gyda'i gynllun neu'i gynlluniau dehongli ategol ei hun. Ceir awgrymiadau ymarferol a chymorth hefyd ar gyfer cysylltu llinynnau straeon ledled Cymru, yn cynnwys mabwysiadu eiconau 'Dilynwch y Stori' y gellir eu hadnabod yn hawdd.

### Amser gweithredu

Mae dehongli yn uchel ar agenda treftadaeth Cymru diolch i nifer o ffactorau gan gynnwys cefnogaeth weinidogol gref, adolygiad o ddehongliadau Cadw ei hun, dyhead Amgueddfa Cymru i greu canolfan ar gyfer hanes Cymru yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, a'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi helpu i roi hwb i fuddsoddiad cyfalaf o ran dehongli treftadaeth.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn arwain y gwaith o greu fframwaith dehongli treftadaeth i'r wlad gyfan, sy'n canolbwyntio ar bobl. Y nod yw 'llywio'r dehongliadau i ganolbwyntio ar becynnau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr gan sicrhau y rhoddir naratif trosfwaol 'cenedlaethol' o hyd'.[1] Mae dull 'Cymru gyfan' yn unigryw i Gymru hyd yma.



## Treftadaeth — Blaenoriaethau Gweinidogol

Mae'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn cefnogi dull Cymru gyfan yn ei Strategaeth ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru, sy'n cynnwys yr ymrwymiadau canlynol:

**'Mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi gosod amcanion ar gyfer cyflwyno Cynllun Dehongli Treftadaeth Cymru Gyfan, cyflwyno'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth a'r Fframwaith Treftadaeth a Chelfyddydau'** ac **'Rydyn ni am sicrhau bod safleoedd treftadaeth yn lleoedd hygyrch a phleserus a hynny i ymwelwyr â Chymru ac i bobl sy'n byw yng Nghymru.'**

**'Byddwn yn ddychmygus yn ein dulliau gan ddefnyddio creadigrwydd fel egwyddor wrth gyflawni gwaith.'**

**'Mae datblygu cynulleidfaoedd newydd ac ehangach i'r amgylchedd hanesyddol yn flaenoriaeth a byddwn yn datblygu dulliau newydd o ymgysylltu â phobl a'u cynnwys wrth archwilio a dathlu'n hanes'.**

Mae Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru ar gael yn: www.cadw/Historic Environment/Policy/Historic Environment Strategy

[1] Cadw, Dehongli Treftadaeth Cymru Gyfan

# Yr her




Mae Cymru yn genedl falch a chymhleth, gyda threftadaeth gyfoethog sy'n unigryw, ond eto sy'n cydblethu â thynged gweddill Prydain. Mae'r cysyniad o Gymru fel un endid yn dyddio yn ôl i'r 13eg ganrif (er bod y ffiniau wedi amrywio dros amser), ond mae stori'r bobl a fu'n byw ac yn gweithio yma yn llawer, llawer hŷn, yn dyddio yn ôl i gyfnod cynhanesyddol, tua chwarter miliwn o flynyddoedd yn ôl. Dyma stori am ddyfeisgarwch pobl, eu brwydrau am rym, eu gwleidyddiaeth a'u creadigrwydd; am genedl fach sy'n aml yn cael mwy o ddylanwad na'r disgwyl ar y llwyfan byd-eang. Mae amgylchedd hanesyddol Cymru wrth wraidd ein diwylliant cyfoethog ac amrywiol. Eto, i'r rhan fwyaf o bobl, nid yw dyfnder na phwysigrwydd stori'r asedau treftadaeth hyn bob amser mor amlwg neu mor hawdd i'w deall.

Dyna'r her sy'n wynebu diwydiant treftadaeth Cymru ar hyn o bryd — sut y gallwn gyflwyno straeon a safleoedd cymhleth i gynulleidfaoedd nad ydynt yn gwybod llawer am y lle na'i hanes? Ymhellach, sut y gallwn sicrhau bod y straeon yn hawdd eu deall ac yn berthnasol? Os byddwn yn llwyddo, drwy gyflwyno stori Cymru mewn modd mwy deniadol ac ystyrlon gallwn wneud y canlynol:

- **dwysáu balchder lleol a chenedlaethol yn ein hasedau treftadaeth;**
- **rhoi cyfleoedd i bobl ddysgu rhywbeth newydd;**
- **gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth pobl o'n straeon cyfoethog;**
- **gwella profiad ymwelwyr;**
- **atgyfnerthu delwedd Cymru mewn modd cadarnhaol;**
- **sicrhau bod Cymru yn fwy cystadleuol yn y farchnad twristiaeth fyd-eang;**
- **ennyn mwy o werthfawrogiad o'r amgylchedd hanesyddol ac felly gyfrannu at y gwaith o'i warchod.**

Gallwn wneud hyn drwy gydgysylltu a gwella'r modd y dehonglir y stori ar sail Cymru gyfan.

# I bwy rydym yn gwneud hyn?



Mae gan ein hamgylchedd hanesyddol apêl eang. Mae'n denu ymwelwyr o dramor, o bob cwr o'r DU ac o gymunedau lleol: 'Ymweld â safleoedd treftadaeth yw'r gweithgaredd gwyliau mwyaf poblogaidd i dwristiaid yng Nghymru — yn aml mae atyniadau twristiaeth sy'n seiliedig ar dreftadaeth ymysg rhesymau pobl dros ymweld â Chymru'.


Rydym am ddenu amrywiaeth mor eang â phosibl o ymwelwyr, gan gynrychioli pob cefndir a lefel diddordeb. Mae'r farchnad deuluol yn arbennig o bwysig i atyniadau treftadaeth, gan gyfrif am ymhell dros 50% o ymweliadau â safleoedd Cadw, er enghraifft.

Mae cynnig mwy o ddehongliadau i 'blant a grwpiau teuluol ' yn flaenoriaeth, yn bennaf oherwydd y rôl bwysig y gall gweithgarwch diwylliannol ei chwarae i helpu i fynd i'r afael â thlodi plant, sy'n effeithio ar draean o'r holl blant sy'n byw yng Nghymru. Yn ddiweddar, siaradodd Keith Towler, y Comisiynydd Plant, am y modd y gall diwylliant danio 'gwreichionyn' a all helpu plant mewn tlodi 'i ddatblygu yn bersonol ac yn broffesiynol fel bod ganddynt yr hyder a'r gallu i ddianc o fagl tlodi'.[2]

'Felly efallai bod rhai ohonoch yn gofyn — pam poeni am gyfranogiad diwylliannol? Yr ateb syml yw — am ei fod yn bwysig. Yn ogystal â'r ffaith bod gan blant hawl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, ceir hefyd dystiolaeth gynyddol sy'n awgrymu bod ymgysylltu diwylliannol yn cefnogi gwell ymgysylltu a chanlyniadau addysgol.'[3]

Drwy ddull Cymru gyfan, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod ac yn cefnogi rôl y sector treftadaeth i roi 'cyfleoedd trawsffurfiol' i bob plentyn yng Nghymru.

*Isod: Baddonau Caer Rufeinig Caerllion.*



[2] http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/2012/07/18/museums-are-key-to-beating-child-poverty-says-keith-towler-91466-31414063/#ixzz213nbNbX9
[3] Ibid

# Rôl Cadw

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Cadw roi cymorth ac arweiniad wrth gyflwyno cynllun Dehongli Cymru gyfan. Adlewyrchir hyn ym mlaenoriaethau Cadw ar gyfer 2012–16 sy'n cynnwys hyrwyddo 'hygyrchedd y straeon sy'n gysylltiedig â lleoedd hanesyddol, a gwerthfawrogiad pobl ohonynt, gan ennyn diddordeb y cyhoedd drwy ddehongliadau a chreadigrwydd'.[4]

I lywio'r broses, mae Cadw wedi cynnal nifer o gynadleddau a digwyddiadau gweinidogol a ddaeth â phartneriaid ynghyd o'r sectorau treftadaeth, y celfyddydau a thwristiaeth. Bydd y cydweithredu a'r ymgynghori yn parhau.

Mae'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth, a reolir gan Cadw, yn rhoi cymorth ariannol ar gyfer prosiectau dehongli a chadwraeth. Mae hyn yn ychwanegol i ddarparwyr grant eraill fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

## Y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth

… Prosiect buddsoddi gwerth £19 miliwn yw hwn, a fydd yn cynyddu gwerth economaidd treftadaeth i Gymru i'r eithaf drwy gynyddu nifer yr ymweliadau, eu hyd a'u gwerth. Drwy well dehongli, caiff treftadaeth eithriadol Cymru ei chyflwyno i gynulleidfa ehangach; gan sicrhau ei bod yn fwy pleserus i ymwelwyr ac i'r bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae'r prosiect yn rhedeg ers 2009 hyd at 2014, ac fe'i hariennir yn bennaf gan Lywodraeth Cymru a thrwy Gronfeydd Cydgyfeirio'r UE. Fe'i harweinir gan Cadw ar ran Llywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid sydd â diddordeb mewn treftadaeth a thwristiaeth o bob sector.

**'Er mwyn sicrhau bod y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth yn llwyddiant mae angen cyflwyno safleoedd treftadaeth mewn modd integredig a datblygu rhediad stori ystyrlon a chofiadwy, gan wneud cysylltiadau rhwng safleoedd, lleoedd, pobl a chymunedau'**, Marilyn Lewis, Cyfarwyddwr, Cadw, Dehongli Treftadaeth a Thwristiaeth yng Nghymru, Awst 2011.

*Castell Caerffili.*



[4] Ibid, Huw Lewis AC

# Cyfleu'r straeon




*Aps Cadw.*

Mae gan ein gwlad werth mileniwm o straeon i'w hadrodd a chrynhoi'r rhain yn llinynnau straeon adnabyddadwy oedd y cam cyntaf yn y gwaith o ddarparu dehongliadau ar sail Cymru gyfan. Ar ôl ymgynghori, daeth wyth o 'linynnau straeon cenedlaethol, cronolegol a/neu thematig' i'r amlwg:

- Gwreiddiau, cynhanes a goresgyniad a gwladychiad y Rhufeiniaid.
- Tirweddau ysbrydol ac ysbrydolgar — ysbrydoliaeth grefyddol, ysbrydol a diwylliannol o'r cyfnod cynhanesyddol hyd at heddiw.
- Cestyll a thywysogion Cymru'r oesoedd Canol, yn cynnwys y tywysogion brodorol, y goresgyniad Normanaidd ac Edwardaidd, brwydr y Cymry am annibyniaeth.
- Twf masnachwyr a bonedd Cymru, 16eg ganrif–18fed ganrif. Twf trefi, pensaernïaeth gynhenid a threfi maenor Cymreig.
- Cymru, y genedl ddiwydiannol gyntaf — o'r cyfnod cynnar hyd at heddiw.
- Amddiffyn y deyrnas, o'r Rhyfeloedd Napoleanaidd i'r Rhyfel Oer.
- Cymru forwrol.
- Twf Cymru a chenedligrwydd Cymreig yn yr 20fed a'r 21ain ganrif.

Mae'r rhestr hon yn eithaf cynhwysfawr ond nid yw'n hollgynhwysfawr, a gellid ei hehangu yn y dyfodol.

Diagram 1 Dehongli Treftadaeth Cymru Gyfan



# Cynllunio ar gyfer llwyddiant

Un o'r camau pwysig i gyflawni'r uchelgais o ddehongli ar lefel Cymru gyfan yw paratoi cynlluniau dehongli sy'n ymwneud â'r llinynnau straeon a amlinellir uchod.

Mae'r rhaglen i ddatblygu'r cynlluniau hyn yn parhau. Mewn rhai achosion, maent yn mabwysiadu dull fframwaith eang tuag at y llinyn stori (e.e. Cymru — y genedl ddiwydiannol gyntaf), ond mewn achosion eraill, mae'r llinynnau straeon wedi'u rhannu ymhellach i greu cynlluniau dehongli ystyrlon a manwl (e.e. rhannwyd Cestyll a Thywysogion Cymru'r Oesoedd Canol yn bum llinyn o is-straeon).

Mae'r cynlluniau yn atgyfnerthu'r egwyddor o ddefnyddio'r amgylchedd hanesyddol fel y cynfas ar gyfer darlunio straeon pobl o'r gorffennol o bob cefndir a chan gynrychioli safbwyntiau amrywiol.

Nid yw'r cynlluniau yn disodli cynlluniau dehongli'r safleoedd penodol. Yn hytrach, maent yn ceisio sicrhau nad ystyrir safleoedd unigol ar wahân, ond yn hytrach y gallant fod yn rhan o gyd-destun ehangach y llinyn stori trosfwaol. Mae pob cynllun a ddatblygwyd hyd yma ar gael yn: http://cadw.wales.gov.uk/interpretation/interpretationplans/?skip=1&lang=cy

# Creu'r cysylltiadau

Yn ogystal â bod yn newydd i'r sector treftadaeth, mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn newydd i'n hymwelwyr hefyd. Felly mae'n bwysig creu rhyw fath o ymdeimlad o gynefindra, ffordd o'u helpu i ddeall yn reddfol bod y 'safle hwn yn gysylltiedig â hwnna', ac 'os byddaf yn mynd i'r safle hwnnw, byddaf yn cael ychydig mwy o'r stori' ac ati. I'r perwyl hwn, mae cyfres o eiconau wedi'u datblygu. Gellir eu defnyddio ar ddeunydd dehongli i awgrymu beth yw'r brif stori (neu'r prif straeon) ar safle, a ble y gallai'r ymwelydd fynd nesaf er mwyn 'dilynwch y stori'. Anogir partneriaid prosiectau i lawrlwytho nodiadau canllaw ar sut i ddefnyddio'r eiconau a'r is-bennawd yn 'dilynwch y stori': http://cadw.wales.gov.uk/interpretation/guidancenotes/?skip=1&lang=cy



# Cydweithio




*Prosiect dehongli cymunedol yng Nghastell Nanhyfer.*

Mae Dehongli Cymru gyfan yn cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid. Mae Cadw, fel corff arweiniol, wedi ymgysylltu â rhai cyfranwyr drwy ymgynghoriadau, a bydd rhaglen ddigwyddiadau barhaus yn eu hannog i drafod a chydweithio ymhellach.

Mae Cadw yn parhau i anelu at 'greu rhyngwyneb gydag anghenion a gofynion darparwyr treftadaeth eraill a chyda strategaethau marchnata twristiaeth'.[5] Ymysg y dulliau ar gyfer hyn mae:

- **Grŵp Amgylchedd Hanesyddol y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth — fforwm strategol o sefydliadau sydd â diddordeb yn yr amgylchedd hanesyddol.**
- **Y Grŵp Llywio Twristiaeth Ddiwylliannol — wedi'i gydlynu gan Croeso Cymru ac sy'n cynnwys cyfarwyddwyr a swyddogion o'r prif asiantaethau treftadaeth.**
- **Grŵp Llywio'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth — sy'n cynnwys aelodau o'r sector treftadaeth, y sector twristiaeth a'r trydydd sector sydd â diddordeb mewn twristiaeth treftadaeth.**
- **Trafodaethau gydag adrannau twristiaeth awdurdodau lleol, sefydliadau twristiaeth a phartneriaethau cyrchfannau.**
- **Dehongli Cymru — grŵp o gyrff cenedlaethol a rhanbarthol sy'n ymrwymedig i annog rhagoriaeth mewn dehongli yng Nghymru.**

Mae mabwysiadu dull Cymru gyfan yn broses barhaus (gweler 'Sicrhau'r ffordd ymlaen' isod). Mae Cadw hefyd yn codi proffil y cynllun i Gymru gyfan drwy'r canlynol:

- **Cyflwyniadau mewn digwyddiadau a chynadleddau, yn cynnwys Dehongli Cymru yn ogystal ag erthyglau mewn cylchgronau fel *Etifeddiaeth y Cymry*.**
- **Digwyddiadau a chymorth sy'n annog cyfranogiad**

[5] Cadw; Nodyn briffio Strategaeth Ddehongli Cymru gyfan 2010

# Sicrhau'r ffordd ymlaen

Mae Cadw'n ymrwymedig i ddatblygu cynllun dehongli Cymru gyfan ymhellach. 'Hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, a gwerthfawrogiad a mwynhad ohono'[6] yw un o'i bedair blaenoriaeth strategol ar gyfer 2012–16. O fewn y flaenoriaeth honno, caiff 'sicrhau bod safleoedd treftadaeth yn fannau pleserus, perthnasol ac ysgogol i ymweld â nhw' ei amlygu, ynghyd â 'chwblhau'r cynllun dehongli ar gyfer Cymru gyfan i hyrwyddo mynediad deallusol i amgylchedd hanesyddol Cymru yn gyffredinol a safleoedd Cadw yn benodol'. Mae blaenoriaethau ymgysylltu Cadw fel a ganlyn: cydweithredu â phartneriaid i 'gyflwyno darlun deinamig a dilys o dreftadaeth a diwylliant i'r byd' ei nodi hefyd.

Adlewyrchwyd yr ymrwymiad hwn yn y buddsoddiad cyfalaf sylweddol a wnaed eisoes drwy'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth a chyllid her Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn wedi'i gwneud yn bosibl i'r dull gael ei fabwysiadu mewn nifer helaeth o safleoedd, yn cynnwys llawer o henebion eiconig Cymru. Mae hyn yn bwysig o ran creu ymwybyddiaeth yn y sector treftadaeth ac, yn hanfodol, ymysg ymwelwyr.


Wrth i'r prosiect gael ei gyflwyno ac wrth i'r manteision gael eu gwireddu, disgwylir i fwy o bartneriaid a safleoedd gymryd rhan. Cydnabyddir y gallai ymyriad ffisegol mewn rhai safleoedd fod yn rhywbeth ar gyfer y tymor hwy ac yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael. Mewn achosion o'r fath, gall technolegau a chyfryngau newydd gynnig cyfleoedd cyflym i fabwysiadu dull Cymru gyfan o ddehongli. Wrth i ofynion ymwelwyr gynyddu ac wrth i atyniadau i ymwelwyr fynd yn fwy cystadleuol, mae'n bwysig bod dulliau dehongli treftadaeth yn bodloni'r gofynion a'r disgwyliadau hyn. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod dehongliadau yn canolbwyntio ar y stori ac anghenion y safle yn hytrach nag ar unrhyw ddull cyflwyno.

Mae technolegau newydd yn chwarae rhan bwysig yn y broses o gyflwyno dehongliadau dilys, ystyrlon a diddorol. Defnyddiwyd tafluniadau digidol i oleuo lleoedd tân, apps gemau ar ffonau symudol i annog pobl i archwilio muriau'r dref yn henebion Cadw, Trefynwy yw'r prosiect Wikipedia cyntaf yn y byd i ddehongli'r dref gyfan drwy ddefnyddio codau QR ac mae sgriniau cyffwrdd rhyngweithiol yn dod yn fwy cyffredin mewn atyniadau treftadaeth i ymwelwyr ledled Cymru, fel y Deyrnas Gopr yn Amlwch.



*Castell Conwy.*

[6] Blaenoriaethau Cadw, Mehefin 2011


Ymyriadau â blaenoriaeth Cadw o ran ymgysylltu â'r cyhoedd
Dehongli
STRAEON
Archeoleg gymunedol
DARGANFOD
Treftadaeth a'r celfyddydau
CREU
Sgiliau a darpariaeth dysgu
TYFU
Ffocws gweithgarwch
Pobl yn mwynhau ac yn defnyddio ein henebion …
Pobl yn cymryd rhan …
Canlyniadau
fel y gallant ddeall a gofalu am yr amgylchedd hanesyddol a'n treftadaeth
fel y gallant gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n helpu eu cymuned
fel y gallant ddatblygu eu sgiliau a'u hyder eu hunain
Canlyniadau strategol
Lles economaidd a datblygu cynaliadwy
Gwella cyfleoedd bywyd pobl ifanc
Gwell cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes ac i ddatblygu sgiliau
Amgylchedd cynaliadwy sy'n ffynnu

# Sicrhau ei fod yn gweithio — gwerthuso dull Cymru gyfan

Mae llawer o amser ac adnoddau yn cael eu buddsoddi yn y dull hwn. Bydd yn bwysig mesur ei effaith am nifer o resymau:

- I ddangos bod y cysyniad yn gweithio ac os nad ydyw, nodi beth sydd angen ei wneud i sicrhau ei fod yn fwy effeithiol.
- Cyfiawnhau buddsoddiad yn y dyfodol.
- Byddai unrhyw ganlyniadau cadarnhaol yn fodd i ddenu mwy o bartneriaid.
- Gweld a yw'n cael effaith wirioneddol ar ymwelwyr.

### Beth sydd angen i ni ei fesur?

Mae angen i ni fesur:

- Nifer y darparwyr treftadaeth sy'n mabwysiadu'r dull

  *Dylid cynnal arolygon rheolaidd i weld faint o bartneriaid sydd wedi gweithredu prosiectau dehongli newydd. O'r rheini, pa ganran sydd wedi mabwysiadu dull Cymru gyfan yn cynnwys defnyddio'r geiriau a'r eiconau 'dilynwch y stori' ac is-benawdau cysylltiedig. Mae angen i ddehongliadau a ariennir gan y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth fabwysiadu dull Cymru gyfan er mwyn cael y cymorth grant.*
- Effeithiolrwydd dull Cymru gyfan o ran profiad ymwelwyr

  *Gwneud gwaith ymchwil yn cynnwys — cyfweliadau/holiaduron mewn lleoliadau lle mae dull Cymru gyfan wedi cael ei fabwysiadu i weld a yw'r dehongliadau yn denu cynulleidfaoedd newydd.*
- Ymateb a dealltwriaeth ymwelwyr

  *Ymchwil i'r hyn y mae ymwelwyr yn 'ei gael' o'n dehongliad. Gellid gwneud hyn ar y cyd â chyrff fel Amgueddfa Cymru a fydd hefyd yn awyddus i gomisiynu ymchwil yn y maes hwn. Byddai hwn yn gyfle i weld a yw pobl yn 'deall' y cysyniad a beth maent 'wedi'i gael' o ganlyniad.*

Caiff canlyniadau'r gwerthusiad eu rhannu gyda phartneriaid.



*Castell Dinbych.*



*Illuminata yng Nghastell Caerffili.*

# Yn olaf

Er mwyn sicrhau bod dull Cymru gyfan yn cael yr effaith fwyaf, mae angen iddo ddenu partneriaid o bob cwr o Gymru o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae'n gweithio ar bob graddfa ac mae yr un mor berthnasol i brosiectau treftadaeth gymunedol ag ydyw i Cadw a'i 128 o safleoedd. Mae'r dull hwn yn dod â darparwyr treftadaeth a thwristiaeth ynghyd, gan ein galluogi i fod yn rhan o gyfanwaith llawer mwy — gan chwarae ein rhan i gyflwyno straeon difyr Cymru mewn ffyrdd creadigol sy'n ysbrydoli.

# Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Dave Penberthy, Pennaeth Dehongli, Cadw
david.penberthy@wales.gsi.gov.uk

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.
**www.cadw.cymru.gov.uk**

Cadw is the Welsh Government's historic environment service working for an accessible and well-protected historic environment for Wales.
**www.cadw.wales.gov.uk**

Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



© Hawlfraint y Goron 2012.

# Sicrhau'r ffordd ymlaen — Cynllun Gweithredu

**1. Cynlluniau dehongli sy'n seiliedig ar straeon**

- Gwerthusiad o'r cynlluniau dehongli sy'n seiliedig ar straeon a luniwyd hyd yma:
  - *A ydynt yn diwallu anghenion Cadw a'i bartneriaid prosiect?*
  - *Os nad ydynt, ble mae'r methiannau a sut y gellir mynd i'r afael â hwy?*
  - *A ydynt yn effeithio ar foddhad a dealltwriaeth ymwelwyr?*
- Safoni fformat y cynlluniau, i sicrhau eu bod yn haws eu deall a'u dilyn.
- Comisiynu cynlluniau dehongli pellach i lenwi bylchau a nodwyd yn stori Cymru gyfan.
- Sefydlu grŵp adolygu yn cynnwys cyrff gydag arbenigedd mewn dehongli/sy'n ymwneud â dehongli.

**2. Gweithredu'r cynlluniau**

- Arwain drwy esiampl mewn safleoedd Cadw a safleoedd eraill a ariennir gan y Prosiect Twristiaeth Treftadaeth.
- Datblygu cynllun gwobrwyo i ddangos defnydd ymarferol o ddull Cymru gyfan.
- Cynnig cymhelliannau a allai gynnwys:
  - *cynllun grant penodol (yn ogystal â'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth ac sydd ar gael ledled Cymru);*
  - *hyfforddiant dehongli (mewn partneriaeth â Dehongli Cymru);*
  - *gwasanaeth cynghori ar gyfer cyrff nad oes ganddynt arbenigwyr dehongli*

**3. Adeiladu ymwybyddiaeth o ddull Cymru gyfan**

- Recriwtio/ymgysylltu â hyrwyddwyr dehongli treftadaeth ledled Cymru a all hyrwyddo dull Cymru gyfan.
- Ymgysylltu ymhellach â darpar bartneriaid i hyrwyddo'r buddiannau a geir drwy gymryd rhan.
- Dylanwadu ar wneuthurwyr penderfyniadau yn y sector cyhoeddus/trydydd sector a fydd yn hyrwyddo'r dull o fewn eu sefydliadau.
- Siarad â chyllidwyr treftadaeth eraill, e.e. Cronfa Dreftadaeth y Loteri parthed cyfeirio ymgeiswyr at y dull.
- Creu dolenni o wefannau fel 'Dehongli Cymru' a'r 'Gymdeithas Dehongli Treftadaeth'.
- Cynnal rhaglen cysylltiadau cyhoeddus i ddathlu cyflawniadau dehongli.

**4. Mesur llwyddiant**

- Monitro:
  - *nifer y prosiectau a gwblhawyd*
  - *nifer y prosiectau sydd wrthi'n cael eu gweithredu*
  - *nifer y sefydliadau partner sy'n mabwysiadu'r dull*
  - *nifer yr ymwelwyr mewn safleoedd*
- Cynnal gwerthusiad ffurfiol o ddehongliadau mewn safleoedd sydd wedi mabwysiadu'r dull i weld a yw'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n hymwelwyr.

**5. Arwain drwy esiampl**

- Gweithredu'r camau a nodwyd ym Mhrif Gynllun Gweithredu Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru.
- Parhau i gyflwyno dehongliadau o safon yn y 128 o henebion sydd yn nwylo Cadw sy'n mabwysiadu dull Cymru gyfan.
- Archwilio rôl 'canolfan' arfaethedig Amgueddfa Cymru yn Amgueddfa Werin Cymru fel enghraifft o ddull Cymru gyfan.

